

Undod

Darlleniad 1: Ioan 17: 20-26
Darlleniad 2: Effesiaid 2: 11-22

Trown atat gyda'n gilydd, O! Dduw ein Tad, gan geisio gweld pob dim yn dy oleuni di a sylweddoli fod y cyfan yn un ynot ti. Deisyfwn dy addoli oherwydd mai tydi sy'n haeddu mawl, diolch a gwerthfawrogiad. Ynot ti yn unig y mae undod llawn.

‘Addolwn Dduw ein Harglwydd mawr
Mewn parch a chariad yma'n awr;
Y Tri yn un a'r un yn Dri
Yw'r Arglwydd a addolwn ni.’

Rhyfeddwn yn ddiddiwedd at amrywiaeth diderfyn y bydysawd a'r cwbl sydd ynddo, o'r mymryn lleiaf i'r ehangder mwyaf.

Cawn ein swyno a'n cyfareddu gan y sêr di-ri, maint y gwagle a hynafiaeth ryfeddol y cread; gan y môr a'i symudiadau, ei ddyfnder a'i ddirgelwch, a'i greaduriaid bach a mawr; gan y mynyddoedd a'r ceunentydd, lliw ac amrywiaeth y coed a'r planhigion, a'r newid o dymor i dymor; gan y rhywogaethau di-ben-draw o adar a chreaduriaid a phryfed; gan bobl o wahanol liw a hil, eu gwahanol ieithoedd a'u diwylliannau.

Eto, gwyddom am yr unoliaeth berffaith sydd rhwng pob peth a'i gilydd. Er bod amrywiaeth a gwahaniaethau, llawenhawn yn yr undod, a gadarnheir gan neges y Gair:

‘Gwnaeth ef hefyd o un dyn yr holl genedloedd,
i breswyllo ar holl wyneb y ddaear.’

Diolchwn i ti, ein Tad, am undod dy Eglwys ac am y patrwm a osodaist ynddi hi ar gyfer bywyd. Diolchwn am eiriau Iesu Grist sy'n sail i bob dim ac yn symbyliad parhaus:

‘Rwy’n gweddio ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti,
O! Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd
fod ynom ni, er mwyn i’r byd gredu mai tydi a’
m hanfonodd i.’

Cyffeswn na fu inni lwyddo i amlygu’r unoliaeth hon yn nhrefn
allanol yr Eglwys. Ni allwn fod yn gytûn o ran syniadau oherwydd
ein rhagfarnau. Ni allwn ddeall ein gilydd oherwydd ein
cyndynrwydd. Ni allwn wrando ar ein gilydd oherwydd ein
balchder. Ni allwn ddysgu oddi wrth ein gilydd oherwydd ein
hunanbwysigrwydd.

Gweddiwn am ostyngeddwrwydd i allu cymryd ein harwain gennyt
ti, i ddysgu o’r newydd oddi wrth yr undod sydd yn y cread, ynot
Ti, ac sy’n gynhenid yn dy Eglwys. Dysg ni i edrych ar undod
trwy’r darlun a gawn ohono yn ein corff. Nid oes terfyn ar
amrywiaeth y corff - mae’n undod llwyr, er bod i bob aelod a
chymal ei swyddogaeth. Wrth inni edrych arnom ein hunain, dyro
inni weld bywyd oll yn undod perffaith. O weld y cyfan yn un ynot
ti, dyro inni’r weledigaeth a’r dyfalbarhad i ymlid pob pechod a
thywyllwch sy’n rhannu ac yn rhwygo. Arwain ni at undod.

Dyro inni faddeuant am ein teimladau a’n methiannau. Glanha ni
oddi wrth ein cyndynrwydd a’n balchder, a dyro inni’r dyhead am
fod yn fwy tebyg i Iesu Grist, ‘yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni
thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw’. Ef yw’r patrwm. Ef
yw’r grym. Ef yw’r nod ar gyfer undod llawn. Tywys ni i’n rhoi ein
hunain yn llwyr i Iesu Grist. Er mwyn ei enw. Amen.

John Owen